# OWEN, HUGH (1880 - 1953), hanesydd

**Enw:** Hugh Owen
**Dyddiad geni:** 1880
**Dyddiad marw:** 1953
**Priod:** Marian Owen (née Owen)
**Rhiant:** Jane Owen
**Rhiant:** Hugh Owen
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** hanesydd
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Glyn Parry

Ganwyd 8 Mai 1880 yn Niwbwrch, Môn, yn fab i Hugh a Jane Owen. Symudodd y teulu i Aigburth, Lerpwl, yn 1883. Addysgwyd ef yn ysgolion S. Michael's Hamlet ac Oulton, a Phrifysgol Lerpwl. Wedi derbyn tystysgrif dysgu yn 1901 bu'n athro hanes mewn ysgolion yn Llundain, Lerpwl a Threffynnon cyn ei benodi'n bennaeth yr adran hanes yn ysgol Llangefni yn 1918, swydd y parhaodd ynddi nes iddo ymddeol yn 1944.

Flwyddyn wedi iddo ddychwelyd i Fôn fe'i hetholwyd yn olygydd cylchgrawn Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr y sir ac ef a fu'n gyfrifol am y cylchgrawn am yr ugain mlynedd nesaf. Rhwng 1920 ac 1949 cyhoeddodd yn y cylchgrawn nifer o ffynonellau hanesyddol Môn wedi eu golygu ganddo ef, megis cofnodion llys sesiwn chwarter Môn, 1768-88 (1924); cyfrifon beilïaid Biwmares, 1779-1805 (1929); llyfr cofnodion bwrdeistref Biwmares, 1694-1723 (1932) a dyddiadur Bulkeley Dronwy (1937). Golygodd hefyd *Braslun o hanes Methodistiaid Calfinaidd Môn, 1880-1935* (1937); ac, ar y cyd â Gwilym Peredur Jones, *Caernarvon court rolls, 1361-1402* (1951), a chyhoeddodd y llyfrau canlynol: *The life and works of Lewis Morris (Llywelyn Ddu o Fôn) 1701-1765* (1951), *The history of Anglesey constabulary* (1952) a *Hanes plwyf Niwbwrch* (1952). Traethawd buddugol mewn cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Dolgellau, 1949, ar hanes unrhyw blwyf yng Nghymru oedd yr olaf. Nid y leiaf o'i gymwynasau, fodd bynnag, oedd ei waith ar lythyrau'r Morysiaid, sef mynegai cynhwysfawr i J.H. Davies (gol.), *The Morris letters* (1907, 1909) a ymddangosodd yn y cylchgrawn rhwng 1942 ac 1944, ac *Additional letters of the Morrises of Anglesey* yn ddwy ran, *Y Cymmrodor*, 49 (1947, 1949).

Dyfarnodd Prifysgol Lerpwl radd M.A. iddo yn 1914 am ei draethawd ymchwil, ' Pre-Edwardian castles in north Wales '. Yn 1916 etholwyd ef yn gymrawd o'r Royal Historical Society ac yn gymrawd o Gymdeithas Hynafiaethwyr Llundain (F.S.A.) yn 1924.

Priodod yn 1913 â Marian Owen o Fethesda, Sir Gaernarfon, athrawes yn ysgol sir Bangor. Bu farw 18 Mawrth 1953 yn Rhosyr, Llanfair Pwllgwyngyll.

## Awdur

**Glyn Parry**

## Ffynonellau


Papurau Hugh Owen yn LlGC (heb eu catalogio)

*Herald Môn*, 30 Mawrth 1953

*Y Clorianydd*, 31 Mawrth 1953

*Môn* (1954-), 1 (1954)


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 891314894788725495000 5

Wikidata: Q20733204

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997


**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu